

Gwasanaeth Tân ac Achub  
**De Cymru**



**South Wales**  
Fire and Rescue Service

## **GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**

**Hyfforddwr TGCh**

**CYFEIRNOD: 503265**  
**GRADD 8 - CYFLOG: £26,446 - £27,514 (PRO RATA)**  
**Awr yr wythnos - TBC**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu dros 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae technoleg yn gydran gritigol o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n helpu darparu'i weithgareddau o ddydd i ddydd.

Gan gynnwys danfon ein criwiau i ddigwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg hollbwysig, a chefnogi systemau sy'n rheoli ein hadnoddau – mae technoleg yn ymwneud â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Mae swydd wag gyffrous gydag oriau hyblyg wedi codi ar gyfer swydd heriol ond gwerth chweil fel Hyfforddwr TGCh yn yr Adran TGCh.

Byddwch chi'n gweithio fel aelod o'r Tîm Cymwysiadau TGCh sy'n gyfrifol am yr holl systemau a ddefnyddir o fewn y Gwasanaeth; gan gynnwys systemau gweinyddol megis Cyllid i systemau rheng flaen fel Terfynellau Data Symudol ar ein peiriannau tân.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio â'n Hyfforddwyr TGCh presennol i ddylunio a darparu hyfforddiant ar draws y Gwasanaeth; o Bencadlys ein Gwasanaeth Tân ac yn ein Gorsafoedd Tân.

Yn gyffredinol, mae ein hymagwedd at hyfforddiant ar ffurf sesiynau un i un neu mewn grwpiau bach ac yn dueddol o fod yn seiliedig ar anghenion yn hytrach na sesiynau ffurfiol. Gellir cyflwyno hwn wyneb yn wyneb neu drwy Microsoft Teams. Byddai'r rôl yn addas ar gyfer rhywun sy'n hyblyg yn ei agwedd ac sy'n hoffi cwrdd â phobl a datrys problemau.

Rydym hefyd yn cynnal rhywfaint o hyfforddiant ffurfiol ar ffurf Dosbarthiadau Meistr, gellir eu cynnal mewn unrhyw leoliad o fewn y Gwasanaeth ac maent yn seiliedig ar wella sgiliau mewn cymwysiadau Swyddfa.

Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd eisiau bod yn rhan o dîm deinamig, person sydd â sgiliau pobl gwych, ac yn cofleidio'r ffaith y bydd pob diwrnod yn wahanol.

Mae Buddion ychwanegol yn cynnwys gweithio hyblyg, campfa ar y safle a cheir y Gwasanaeth i deithio oddi ar y safle.

Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

